# Teledu a ffilmio ar yr Ystad (parhad)

7 Awst 2024

**Cais am wybodaeth.**

Fel y nodwyd yn ein hymateb dyddiedig 23 Gorffennaf 2024, daethom i'r casgliad bod adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn berthnasol i'r wybodaeth a gedwir ynghylch ffioedd rhentu a dderbyniwyd ("y wybodaeth") gan Gomisiwn y Senedd ("y Comisiwn"). Ers hynny, rydym wedi ystyried y mater ymhellach ac wedi cynnal prawf budd y cyhoedd. Wedi gwneud hynny, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth yn drech na'r niwed tebygol a fyddai'n deillio o ddatgelu'r wybodaeth honno. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 43(2). Nodir manylion ein penderfyniad isod.

Mae adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eithrio unrhyw wybodaeth a fyddai'n niweidio, neu a fyddai'n debygol o niweidio, buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei chadw) rhag cael ei datgelu. Diben yr eithriad yw atal gwybodaeth a allai achosi niwed i fuddiannau masnachol unrhyw unigolyn neu sefydliad rhag cael ei datgelu, megis ei allu i gymryd rhan gystadleuol mewn gweithgarwch masnachol.

Yn ein barn ni, byddai datgelu'r wybodaeth (h.y. y ffioedd rhentu a dderbyniwyd) yn niweidio buddiannau masnachol y Comisiwn. Byddai rhyddhau'r wybodaeth yn golygu bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd a fyddai'n niweidio ein sefyllfa drwy gyfyngu ar ein gallu yn y dyfodol i negodi mewn amgylchedd masnachol a sicrhau telerau manteisiol.

Dechreuodd y Comisiwn godi ffioedd rhentu yn gymharol ddiweddar, ac nid yw wedi gwneud hynny ar gyfer yr holl ffilmio sydd wedi digwydd ar Ystad y Senedd. Yn ddiweddar, dechreuodd y Comisiwn hefyd ar y gwaith paratoi angenrheidiol i lywio polisi posibl ar gyfer manteisio'n ariannol ar yr Ystad; roedd y gwaith hwn yn cynnwys ceisio cyngor ar daliadau priodol. Oherwydd mai megis dechrau y mae'r gwaith datblygu polisi yn y maes hwn, nid oes penderfyniadau allweddol wedi'u gwneud eto. Fodd bynnag, ar

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

hyn o bryd credir y gallai unrhyw daliadau rhentu yn y dyfodol amrywio yn ôl natur y cynhyrchiad sydd i'w ffilmio, yr amseru, y lleoliadau sydd i'w defnyddio a'r effaith gyffredinol a ragwelir ar y Comisiwn a/neu'r Senedd.

Ystyrir y byddai datgelu'r ffioedd rhentu a godwyd hyd yma yn llesteirio gallu'r Comisiwn i negodi'r ffioedd mwyaf manteisiol fesul achos yn y dyfodol. Mewn geiriau eraill, byddai datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd, cyn i'r polisi gael ei lunio, yn gynamserol ac yn amharu ar botensial unrhyw raglen i fanteisio'n ariannol ar yr ystad yn y dyfodol.

Mae adran 43(2) yn ddarostyngedig i brawf budd y cyhoedd. Er mwyn atal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, rhaid i ni fod yn fodlon bod y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. Mae dadleuon ar y ddwy ochr, gan gynnwys y dadleuon isod.

Mae budd mawr i'r cyhoedd o ran didwylledd a thryloywder y Comisiwn. Mae budd i'r cyhoedd hefyd o wybod a deall sut y defnyddir Ystad y Senedd, yn enwedig yng nghyd-destun manteisio'n ariannol ar yr Ystad. At hynny, mae er budd i'r cyhoedd wybod faint o incwm sy'n cael ei greu drwy godi ffioedd rhentu.

Ar y llaw arall, mae er budd i'r cyhoedd i'r Comisiwn allu defnyddio ei Ystad yn y ffordd orau bosibl a sicrhau mai'r ffioedd a godir yw'r trefniant mwyaf priodol ar gyfer y Comisiwn a/neu'r Senedd. Mae budd i'r cyhoedd hefyd o sicrhau bod y Comisiwn yn gallu cymryd rhan yn gystadleuol mewn amgylchedd masnachol.

At hynny, mae budd i'r cyhoedd ynghlwm wrth alluogi'r Comisiwn i fwrw ymlaen â'r cyfnod datblygu polisi sydd i ddod heb bosibilrwydd o graffu cyhoeddus neu ymyrraeth allanol a heb wneud datgeliadau a allai danseilio sylfaen unrhyw bolisi yn y dyfodol.

Yn ogystal, wrth ymrwymo i'r cytundebau y codwyd ffioedd rhentu odanynt, rhoddodd y Comisiwn sicrwydd ynghylch agweddau ar y trefniadau. Mae budd amlwg i'r cyhoedd os gall y Comisiwn gyflawni ei rwymedigaethau yn hyn o beth.

Gallai datgelu unrhyw wybodaeth am y trefniadau, yn groes i'r ymrwymiadau a roddwyd, hefyd leihau hyder eraill yn y Comisiwn ac effeithio'n negyddol ar allu'r Comisiwn i gymryd rhan yn effeithiol mewn amgylchedd masnachol.

I gloi, nid ydym o'r farn bod y budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth yn drech na'r niwed tebygol a fyddai'n deillio o ddatgelu'r wybodaeth honno, i'r graddau nad yw er budd y cyhoedd i niweidio buddiannau masnachol yn y modd hwn. O'r herwydd, mae'r wybodaeth ynghylch ffioedd rhentu wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 43(2).

Yn gywir

**Joshua Newland**

**Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF